# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 2

NEWID YN YR HINSAWDD

*Swyddogaethau corff cynghori: adroddiadau a chyngor*

### 44 Corff cynghori

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau—

(a) sefydlu corff corfforaethol i arfer swyddogaethau'r corff cynghori o dan y rhan hon, neu

(b) dynodi person i fod yn gorff cynghori at ddibenion y Rhan hon.

(2) Ni chaiff y rheoliadau ddynodi person onid yw'r person yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.

(3) Os nad oes rheoliadau o dan is-adran (1) mewn grym, y corff cynghori yw'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd a sefydlwyd o dan adran 32 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p. 27).

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a), yn benodol, gynnwys darpariaeth ynghylch—

(a) statws ac aelodaeth y corff a sefydlir gan y rheoliadau;

(b) cyflogi staff gan y corff;

(c) tâl, lwfansau a phensiynau ar gyfer aelodau a staff;

(d) trefniadaeth a gweithdrefn y corff;

(e) adroddiadau a chyfrifon (gan gynnwys archwilio).

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)(a) alluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i'r corff mewn perthynas â'r materion a grybwyllir yn is-adran (4).

(6) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, drosiannol neu arbed, a all gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfiad.